

Crynodeb o'r dadansoddiad o HCA yng Nghymru mewn perthynas â meincnodau ansawdd rhyngwladol

Meincnod ansawdd rhyngwladol

Canfyddiad ynglŷn â Chymru

<p>1. Fframwaith rheoleiddio eglur.</p> <p>Mae systemau llwyddiannus yn tueddu i fod â fframwaith deddfwriaethol eglur sy'n nodi, ymhlith pethau eraill, safonau athrawon sy'n dechrau yn y proffesiwn, gofynion HCA o ran cwrmpas y cwricwlwm, mathau o raglenni, trefniadau rhaglenni a manylion fel hyd y cwrs ac amser mewn ysgolion.</p>	<p>Yng Nghymru, mae'r fframwaith rheoleiddio'n gadarn. Ceir cyfres eglur o safonau a rheolau achredu. Mae'r gofynion ar gyfer cyflwyno HCA o ran mathau o raglenni, gofynion cwricwlwm, hyd y rhaglen, hyd y cwrs ac amser mewn ysgolion yn eglur.</p> <p>Gellir gwneud gwelliannau pellach, er enghraifft o ran sicrhau bod y safonau ar gyfer athrawon ar wahanol gyfnodau yn eu gyrfa yn cyd-fynd â'i gilydd yn well, i egluro cynnydd.</p>
<p>2. 'Arweinyddiaeth sector' sydd â chysylltiadau da, yn drefnus ac ymgynghorol</p> <p>Mae systemau llwyddiannus yn nodedig yn yr ystyr bod HCA yn ffocws eglur ac uniongyrchol i'r rhai sy'n gyfrifol am y gwasanaeth ysgolion. Mae gwneuthurwyr polisi arweiniol yn deall natur a gofynion arbennig HCA. Wrth ystyried diwygio, ar draws y system ysgolion, ymdrinnir â swyddogaeth a chyfraniad HCA. Cynhelir trafodaethau ac ymgynghoriadau er mwyn sicrhau bod diwygiadau'n gydnaws â'i gilydd a bod pawb yn rhan o'r broses.</p>	<p>Yng Nghymru, mae hwn yn faes lle gellir gwneud gwelliannau drwy sicrhau bod HCA yn rhan gadarnhaol o fewn yr agenda diwygio ysgolion.</p> <p>Bydd hi'n bwysig ystyried sut y bydd Llywodraeth Cymru'n ymgysylltu'n rhagweithiol â darparwyr HCA i ddatblygu system sy'n hyblyg ac yn gallu cefnogi datblygiadau polisi.</p>

3. Darparwyr cryf (neu un darparwr cryf) sy'n cael eu harwain yn dda yn lleol

Sylfaen HCA da bob amser yw'r darparwyr. Yn y Ffindir, ceir corff datblygedig cryf o arbenigedd athrawon mewn addysg i athrawon sydd wedi datblygu dros lawer o flynyddoedd.

Cysondeb yw'r broblem fwyaf. Mae HCA yn fusnes cymhleth, ac er mwyn bod yn llwyddiannus, mae gofyn i ddarparwr gyflawni'n dda mewn sawl pwnc, arbenigedd a grwpiau oedran gwahanol. Ceir heriau ychwanegol yn sgil y gofyniad i drefnu hyfforddiant mewn ysgolion yn ogystal ag yn y sefydliadau hyfforddi.

Nid yw HCA yng Nghymru yn cyrraedd y meincnod uchel hwn. Ceir problemau sy'n gofyn am welliannau ym maes rheoli a sicrhau ansawdd er mwyn gwneud yn siŵr bod gweithrediad y rhaglen yn y Canolfannau yn fwy dibynadwy ac yn agosach at yr hyn y dylai fod.

Gellid gwneud mwy i gydnabod swyddogaeth allweddol uwch-arweinwyr ym mhob sefydliad o ran sicrhau llwyddiant. Bydd hyn yn sicrhau bod y rhaglen yn cael ei chyflwyno'n effeithiol a dull gweithredu sy'n canolbwyntio ar atebion. Mae angen gwaith pellach i gefnogi gwaith partneriaeth cryf ac effeithiol mewn modd sy'n deall ac yn gweithio'n ymatebol gyda phob partner, yn cynnwys ysgolion.

<p>4. Modelau hyfforddi ac addysgeg cryf sy'n treiddio drwy'r holl raglenni</p> <p>Mae'n drawiadol mai un o nodweddion systemau llwyddiannus yw deialog parhaus – os nad dadl barhaus – ynglŷn â'r dull o hyfforddi a fabwysiedir ganddynt ac, fel arfer, ceir rhaglen werthuso ac ymchwil sy'n ymdrechu'n barhaus i gwestiynu a gwella'r dull gweithredu. Yn yr un modd, mae'r ddarpariaeth ar ei gorau pan fydd ysgolion a darparwyr HCA yn rhannu dull addysgu, sy'n briodol i addysgu'r blynyddoedd cynnar, dyweder, neu blant cynradd hŷn, neu bynciau fel gwyddoniaeth a hanes. Trwy ddilyn y modelau hyn, mae ysgolion a darparwyr yn cyfuno i sicrhau bod hyfforddeion yn bodloni disgwyliadau cyffredin ac yn derbyn cymorth perthnasol.</p>	<p>Ni cheir digon o dystiolaeth fod trafodaeth a beirniadaeth ynglŷn â pha fodelau hyfforddi y dylid eu defnyddio mewn Canolfannau HCA.</p> <p>Yn yr agenda ddiwygio gyfredol yn ystafelloedd dosbarth Cymru sy'n cael ei chyflwyno'n fwyfwy cyflym, mae hyn yn wendid sylweddol. Mae'n hollbwysig felly fod gan Ganolfannau HCA weledigaeth glir ynglŷn â'r strategaethau a'r dulliau ystafell ddosbarth a ddefnyddiant er mwyn eu hegluro i ysgolion.</p>
<p>5. Dull gweithredu sy'n seiliedig ar 'theori ymarferol' yn cynnwys lefelau uchel o ymarfer ysgol</p> <p>Mae'r pwyslais modern ar fwy o waith paratoi o fewn yr ysgolion mewn HCA yn newid byd-eang. Mae'r rhan fwyaf o'r modelau HCA mwyaf datblygedig yn integreiddio theori addysgol, elfennau pwnc ac addysgeg gydag ymarfer ysgol.</p>	<p>Dyma gryfder amlwg. Mae darparwyr yn cyflwyno hyfforddeion i'r profiad ysgol yn gyflym ac mae hyn i'w groesawu. Yn yr ysgolion bydd yr hyfforddeion yn gwneud synnwyr o'r cyfan a ddysgwyd ac mae parch mawr i'r rhan hon o'r cwrs.</p>
<p>6. Cryfderau pwnc ac arbenigedd tiwtoriaid a'r gyfadran</p> <p>Mae gwybodaeth pwnc a'r hyn a elwir yn wybodaeth addysgeg</p>	<p>Wrth gynllunio'r ddarpariaeth HCA, mae hon yn nodwedd</p>

<p>am gynnwys (gwybod pa anawsterau sy'n wynebu myfyrwyr wrth ddysgu deunydd penodol a gwybod sut i addysgu'n unol â hynny) yn elfennau hanfodol yn y rhaglenni HCA gorau.</p>	<p>gymharol gref am fod cydbwysedd da rhwng gofynion HCA.</p> <p>Fodd bynnag, mae darparwyr yn awgrymu bod rhai anawsterau o ran recriwtio tiwtoriaid mewn meysydd pwnc sy'n flaenoriaeth recriwtio ac mae angen gwneud rhagor i sicrhau bod Cymru yn gyson ddenu'r addysgwyr gorau oll i'r system.</p>
<p>7. Fframwaith eglur ar gyfer 'datblygiad proffesiynol cynnar' ar draws HCA, y cyfnod sefydlu a blynyddoedd cynnar gyrfa athro.</p> <p>Mae systemau llwyddiannus yn ceisio integreiddio darpariaeth HCA gyda threfniadau sefydlu a datblygiad proffesiynol drwy flynyddoedd cynnar gyrfa athro. Mewn rhai gwledydd, ceir safonau ysgrifenedig ar gyfer derbyn ymgeiswyr ar gwrs HCA, ar gyfer llwyddo i fynd ymlaen i ennill statws athro cymwysedig, ar gyfer cwblhau'r flwyddyn sefydlu ac ar gyfer symud ymlaen i statws athro profiadol neu uwch. Hyd yn oed lle nad yw hyn yn digwydd, mae gwledydd llwyddiannus yn dechrau mynd i'r afael â'r cwestiwn o sicrhau bod pob hyfforddai'n cael cefnogaeth fwy cyson drwy gydol blynyddoedd cyntaf eu gyrfa.</p>	<p>Yng Nghymru, ceir fframwaith blaengar sy'n cwmpasu'r gofynion fel y'u nodwyd yn yr arferion gorau. Mae cyflwyno'r Radd Meistr mewn Ymarfer Addysgol newydd o fudd i gefnogi datblygiad gyrfaol cynnar.</p> <p>Mae angen gwneud gwaith pellach yng Nghymru i ystyried cyfres bellach o safonau gyrfa cynhwysfawr a allai gefnogi'r Radd Meistr mewn Ymarfer Addysgol.</p>
<p>8. Ymchwil sy'n gydnaws â modelau ac ymarfer HCA, gan helpu i lunio ac ail-lunio dulliau gweithredu dros amser.</p> <p>Mae ymchwil yn chwarae rhan bwysig mewn systemau HCA llwyddiannus. Yn Singapôr, caiff athrawon eu cyflwyno i ddulliau</p>	<p>Mae angen cryfhau'r cysylltiad rhwng HCA ac ymchwil ac annog diwylliant o ymchwil. Mae angen i Gymru ddysgu o arferion da a</p>

<p>ymchwil ac mae'r Sefydliad Addysg Cenedlaethol yno yn ganolfan ymchwil addysg o fri ynddi ei hun. Yn y Ffindir, mae hyfforddeion yn weithgar iawn mewn gwaith ymchwil ac yn dysgu sut i gynnal ymchwiliadau'n ymwneud â dysgu er mwyn trosglwyddo'r arbenigedd hwn i'w gyrfa fel athrawon.</p>	<p>lledaenu arferion da yn y maes hwn.</p>
<p>9. Proffesiwn statws uchel sy'n denu'r graddedigion gorau</p> <p>Nod pob sector HCA yw denu ymgeiswyr o safon uchel i broffesiwn statws uchel.</p>	<p>Mae'r rhan fwyaf o ddarpariaeth HCA yn denu digon o ymgeiswyr i lenwi'r rhan fwyaf o raglenni. Mae cymhellion ariannol yn bwysig o ran helpu i lenwi cyrsiau mewn pynciau sy'n flaenoriaeth recriwtio. Parhau i ddenu graddedigion o'r safon uchaf yw'r her fawr i Gymru.</p>
<p>10. Ysgolion yn gweithio mewn partneriaethau hirdymor â darparwyr addysg uwch, gan ddefnyddio'r un modelau addysgeg</p> <p>Mae systemau HCA llwyddiannus yn sicrhau bod ysgolion yn gweithio'n agos iawn â darparwyr addysg uwch, i sicrhau bod hyfforddeion yn dysgu addysgu mewn amgylchedd lle mae theori ac ymarfer wedi'u hintegreiddio'n dda a lle mae athrawon newydd yn derbyn negeseuon cyson a chefnogaeth gyson.</p>	<p>Yng Nghymru, fel mewn gwledydd eraill, lle mae HCA wedi'i ddatganoli i ddarparwyr sy'n gwasanaethu rhanbarthau gwahanol, caiff llwyddiant HCA ei effeithio'n gryf gan ansawdd partneriaethau ysgol. Mae partneriaethau cryf ac effeithiol angen arweinyddiaeth dda gyda chyfrifoldebau, disgwyliadau hyfforddi ac atebolrwydd eglur.</p>

<p>11. Diwylliant cryf o ddatblygiad proffesiynol parhaus, wedi'i gymhwyso'n ymarferol yn yr ysgolion</p> <p>Nid HCA yw'r unig elfen o ddatblygiad proffesiynol. Fel rheol, bydd ysgolion ag arferion a thraddodiad cryf o Ddatblygiad Proffesiynol Parhaus yn ei chael hi'n haws cynnwys hyfforddeion a chefnogi eu dysgu a'u hasesu.</p>	<p>Yng Nghymru, gellir gwneud llawer iawn mwy i gryfhau darpariaeth datblygiad proffesiynol ysgolion. Fel mewn gwledydd eraill, yn cynnwys y Ffindir, mae Datblygiad Proffesiynol yn amrywio o ran ei ansawdd a'r defnydd ohono. Mae llawer o fewn y proffesiwn yn rhagweithiol ac yn cymryd cyfrifoldeb dros eu dysgu parhaus eu hunain. Ond mae angen gwneud rhagor i sicrhau bod pawb yn y sector yn cymryd rhan mewn Ymarfer, Adolygu a Datblygu o ansawdd uchel.</p>
<p>12. Atebolrwydd pob darparwr HCA, yn unigol ac ar y cyd</p> <p>Mewn systemau HCA da, caiff darparwyr eu dwyn i gyfrif am eu hansawdd. Gallai hynny ddigwydd, fel yn Singapôr, drwy drefn werthuso (neu arolygu) benodol neu gellir sicrhau atebolrwydd, fel yn y Ffindir, drwy'r ymrwymiad a wneir gan bob athro i werthuso ei ymarfer a'i wella.</p>	<p>Mae Estyn wedi datblygu model da o atebolrwydd ar gyfer y sector. Caiff y ddarpariaeth ei harolygu'n annibynnol a chyhoeddir barn wrthrychol mewn adroddiadau agored.</p>
<p>13. Cael data da sy'n helpu darparwyr i werthuso perfformiad ac olrhain eu cynnydd eu hunain dros amser</p> <p>Mae cael data da yn nodwedd arall o'r rhan fwyaf o systemau ysgol da. Mae data'n helpu i wneud perfformiad – a chryfderau a gwendidau – yn fwy gweladwy. Mae'n galluogi rheolwyr i ymchwilio i dueddiadau ac i olrhain gwelliannau. Mae'n hwyluso</p>	<p>Yng Nghymru, mae darparwyr HCA yn dechrau cynhyrchu rhagor o ddata i'w galluogi i werthuso gwahanol ddulliau a llwybrau hyfforddi fel y gallant olrhain cynnydd gwahanol</p>

atebolrwydd.	fyfyrwyr. Bydd hyn hefyd yn eu galluogi i ymchwilio i gyfraniad tiwtoriaid ac ysgolion penodol ac i ystyried gwelliannau yn ôl yr angen o ran Datblygiad Personol a thrafod meysydd ar gyfer gweithredu gydag ysgolion.
<p>14. Pwyslais diflino ar wella pob rhaglen ac ymarfer HCA yn barhaus</p> <p>Mae'r systemau HCA mwyaf llwyddiannus yn uchelgeisiol iawn. Mae'n arwyddocaol fod gwledydd sy'n perfformio i safon uchel mewn astudiaethau addysgol cymharol yn aml wedi dewis cyflawni gwelliannau a chynnal mentrau dros gyfnod sylweddol o amser. Maent wedi ceisio sicrhau gwelliannau cyflym, wrth gwrs, ond maent hefyd wedi ceisio sefydlu arferion – a chynghreiriau – sy'n ychwanegu at eu gallu yn y tymor hir.</p>	<p>Mae llawer o'r rhai sy'n gweithio i ddarparwyr HCA yng Nghymru yn uchelgeisiol o ran sicrhau gwelliant. Gallai arweinwyr a rheolwyr yn y Canolfannau HCA a Sefydliadau Addysg Uwch wneud rhagor i gyflwyno diwygiadau'n gyflymach.</p>